PARTNERIAETH AWYR-AGORED
Profiad • Mwynhau • Llwyddo
Experience • Enjoy • Achieve
OUTDOOR PARTNERSHIP

# Gwella Bywydau Pobl Drwy Weithgareddau Awyr Agored



# 2021 ADRODDIAD Y CADEIRYDD

Mae'r Bartneriaeth Awyr Agored (Y BAA) yn elusen gofrestredig a sefydlwyd yn 2004 i wella cyfleoedd ar gyfer pobl leol i gyflawni hyd eithaf eu gallu drwy gymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored.

Pob blwyddyn, mae'r elusen yn mynd ati i gynnig 15,000 o gyfleoedd i bobl ymwneud gyda'u cyfoeth naturiol drwy gymryd rhan, presgripsiynu cymdeithasol, gwirfoddoli, cynlluniau hyfforddi a dod o hyd i waith, gwella iechyd pobl a hybu llesiant cymdeithasol ac economaidd.

PARTNERIAETH AWYR-AGORED
Profiad • Mwynhau • Llwyddo
Experience • Enjoy • Achieve
OUTDOOR PARTNERSHIP



Bu 2021 yn flwyddyn heriol dros ben unwaith eto i ein cymunedau, ein mudiadau partner a'r grwpiau a'r unigolion rydym yn cydweithio gyda nhw. Fodd bynnag roedd cryn dipyn inni ddathlu yn ogystal ac rydw i'n gobeithio y bydd yr adroddiad cryno hwn yn cynnig blas o'r gwaith cadarnhaol yn ystod y 12 mis diwethaf.

Rydym yn hynod ddiolchgar i'n holl arianwyr, noddwyr, gwirfoddolwyr a rhanddeiliaid am eu cefnogaeth barhaus. Gyda diolch iddyn nhw am eu cefnogaeth, bu modd inni ddal ati gyda'n gwaith drwy gydol y pandemig - er y bu gofyn inni addasu ein ffyrdd o weithio.

Hoffem estyn diolch i weithwyr a phartneriaid Y BAA sydd wedi rhoi o'u hamser a chynnig eu harbenigedd i helpu eraill yn ystod y cyfnod anodd hwn.

*Ar y cyfan, mae'r elusen wedi llwyddo i gynnig bron i 7000 o gyfleoedd gweithgareddau awyr agored i drigolion lleol ledled Gogledd Cymru, Cymbria, Gogledd Iwerddon a Swydd Aeron. At hyn, bu i'r BAA chwarae rhan ddylanwadol ynghlwm â nifer o brosiectau cenedlaethol sy'n torri tir newydd.*

# Rhaglen Datblygu Gymunedol

Mae'r rhaglen dan arweiniad ein Swyddogion Datblygu Gweithgareddau Awyr Agored yng Ngogledd Orllewin Cymru (Ynys Môn, Conwy a Gwynedd), Swydd Aeron, Cymbria a Gogledd Iwerddon. Nod y rhaglen ydy ysbrydoli plant, pobl ifanc ac oedolion i roi cynnig ar weithgareddau awyr agored a pharhau i'w cyflawni drwy gydol eu hoes.

Yn ystod y pandemig, aeth ein Swyddogion rhagddi i gefnogi ysgolion gan gynnwys ysgolion Anghenion Dysgu Ychwanegol (ALN), clybiau, grwpiau lleol a theuluoedd lleol gan gynnig cyfleoedd gweithgareddau awyr agored i filoedd o bobl wrth i'r cyfnod clo lacio.

Yn ystod y cyfnod hwn bu inni gefnogi **94** o glybiau awyr agored sy'n cynrychioli **5424** o aelodau.





# Rhaglen Gwirfoddoli

Bu ein Swyddog Gwirfoddoli yn gyfrifol dros adnabod, hyfforddi a gwobrwyo gwirfoddolwyr gan gynnig cyfle i bobl leol ddatblygu eu sgiliau am gost gymharol isel. At hyn fe lwyddodd rhai o'r unigolion i ddod o hyd i waith yn dilyn y rhaglen.

Eleni bu i 225 o arweinwyr gwirfoddolwyr ennill gwobrau Corff Llywodraethu Cenedlaethol ac o'r 225 hynny, roedd 39 ond yn megis cychwyn ar eu taith yn gwirfoddoli. Ar y cyd â Chymdeithas Eryri, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, bu i'r Bartneriaeth Awyr Agored gefnogi rhaglen wirfoddoli i helpu rheoli effeithiau ymwelwyr yn 2021.

Cafodd 120 o wirfoddolwyr newydd eu recriwtio yn yr haf i gefnogi'r prosiect gwirfoddoli Caru Eryri. Bu'ch ymroddiad chi, ein gwirfoddolwyr yn aruthrol. Pe bai gofyn inni dalu am gyfraniad o'r fath, buasai'n costio lleiafswm o £1.7miliwn y flwyddyn.

# Rhaglen Llwybrau i Waith

Mae ein Cynllun Dan Hyfforddiant yng Ngogledd Cymru, dan ofal ein Swyddog Hyfforddi, yn manteisio ar yr awyr agored i ymwneud gydag a chefnogi trigolion i fynd rhagddi i ddod o hyd i waith.

Eleni bu i'r cynllun gefnogi 27 o unigolion (15 o ddynion / 12 o ferched) gyda 10 yn mynd rhagddi i ddod o hyd i waith llawn amser, 6 yn gwirfoddoli ac 8 yn mynd ati i gyflawni addysg a hyfforddiant pellach. Yn ogystal, llwyddodd sawl un i ennill cymwysterau Corff Llywodraethu Cenedlaethol.





## 'Antur y Ferch Hon'

Nod y prosiect hwn ydy ceisio mynd i'r afael gydag anghydraddoldebau o ran merched yng ngweithlu'r sector awyr agored (hyfforddwyr, rheolwyr). Bu i 820 o ferched ymuno gyda'r rhaglen 'Antur y Ferch Hon' yn rhithiol drwy lwyfannau cyfryngau cymdeithasol yn ystod y pandemig.

## Rhaglen Iechyd a Lles / Presgripsiynu Cymdeithasol

Mae'r rhaglen Iechyd a Lles wedi'i hariannu gan y Gronfa Iach ac Egnïol a bu'n cydweithio gyda 59 o unigolion eleni gan hybu eu hiechyd a'u lles meddyliol a chorfforol.

Bu i **un ar ddeg** o'r unigolion hynny fynd rhagddi i gyflawni addysg a hyfforddiant pellach gan ennill Gwobrau Corff Llywodraethu Cenedlaethol. At hyn, mae 17 o'r unigolion hynny wedi llwyddo i ddod o hyd i waith parhaol ac mae'r Bartneriaeth Awyr Agored yn cyflogi un o'r unigolion hynny'n llawn amser.





## Antur i Bawb

Nod y prosiect hwn ydy cynnig modd i bobl o bob gallu i fanteisio ar gyfleoedd yn yr awyr agored gan fod diffyg cyfleoedd ar hyn o bryd.

Ein Swyddog Cynhwysiant sy'n gyfrifol am y prosiect hwn ac eleni bu i **84** o bobl anabl elwa ohono. Mae'n bleser gen i adrodd hefyd y cafodd tri chlwb newydd, sy'n addas ar gyfer pobl anabl, eu sefydlu.



Yn sgil argyfwng y coronafeirws bu newidiadau sylweddol i weithdrefnau'r elusen gan sicrhau diogelwch a lles ei gweithwyr, aelodau a'r unigolion sy'n cymryd rhan yn y gweithgareddau. Bu'n rhaid i'r BAA wneud  penderfyniadau anodd ac maen nhw wedi cydymffurfio gyda chyngor ac arweiniad y Llywodraeth i geisio achub bywydau a gwarchod ein GIG.

Yn dilyn Datganiad y Prif Weinidog ar Fawrth yr 17eg yn datgan "dylai pawb sy'n gallu gweithio o adref wneud hynny", bu i holl weithwyr Y BAA (12 llawn amser ac un rhan amser) fynd ati i weithio o adref. Bu i'r staff gefnogi ei gilydd gyda phroblemau Technoleg Gwybodaeth a threfnu bod ganddyn nhw swyddfeydd yn eu cartrefi. Erbyn Mawrth y 23ain, roedd cyfarfodydd Zoom i staff wedi'u trefnu pob pythefnos yn ogystal â chyfarfodydd zoom rheolaidd gyda Phartneriaid Cyflawni ac Aelodau Bwrdd.

Bu inni benderfynu'n gymharol fuan i beidio â rhoi'r staff ar y cynllun cadw swyddi a hynny'n bennaf yn sgil cefnogaeth partneriaid ariannu allweddol Y BAA a'r angen i gynnal cefnogaeth ar gyfer ein cymunedau. Roedden ni hefyd yn awyddus i beidio â cholli momentwm gyda'r prosiect ehangu newydd a sylweddol gan y cafodd aelodau newydd o staff eu penodi'n ddiweddar yng Ngogledd Iwerddon, Cymbria a Swydd Aeron. Roedd modd i waith arferol y staff hynny ar y cychwyn (dadansoddi bylchau / ymchwil) barhau i raddau helaeth ond rhaid oedd addasu'r prosesau fymryn yn ystod y cyfnod clo.

Bu i'r BAA fynd ati i lunio adran am Covid-19 ar eu gwefan i rannu gwybodaeth a chynnig cyngor a chefnogaeth gan brif asiantaethau a chyrff llywodraeth ar gyfer eu haelodau, cleientiaid a phrif bartneriaid cyflawni.
https://partneriaeth-awyr-agored.co.uk/en/

Yn ystod cyfnodau Du a Choch Llywodraeth Cymru, bu Prif Weithredwr Y BAA yn chwarae rhan annatod ar nifer o fforymau gan gynnwys Cymdeithas Chwaraeon Cymru, Cynghrair Awyr Agored Cymru ac ASW. Bu'n cynnig cyngor a chefnogaeth i Lywodraeth Cymru wrth i'r wlad nesáu at adael y cyfnod dan glo ac mae'n parhau i gyfrannu at y rhain fel un o'r sawl grŵp aml-asiantaeth.



Mae'r Bartneriaeth Awyr Agored yn fodd i gyfeirio pobl o'r GIG gan wella iechyd meddwl unigolion, cynyddu eu lefelau gweithgarwch corfforol a lleihau afiechydon fel gordewdra a chlefyd siwgr.

Gallai'r BAA gynnig cyfle i bawb o'r gymuned gymryd rhan drwy gefnogi clybiau a hybiau awyr agored presennol yn y gymuned neu sefydlu rhai newydd. Mae'r BAA yn manteisio i'r eithaf ar y gweithlu gwych o wirfoddolwyr sydd wedi esblygu'n sgil y pandemig ac maen nhw'n sicrhau modd i bawb fanteisio ar y cyfleoedd.

Aeth Y Bartneriaeth Awyr Agored ati'n wyliadwrus gan ddwyn i ystyriaeth cymunedau'r ardal. Mae gwaith yr Elusen ar lawr gwlad lle maen nhw'n canolbwyntio ar drigolion yr ardal yn eu cymunedau.

Rôl y Bartneriaeth Awyr Agored wrth inni fynd ati i geisio byw gyda'r Feirws fyddai sicrhau bod ein cynlluniau'n cydymffurfio gyda chyngor, arweiniad a mesurau'r Llywodraeth ym mhob un o wledydd Prydain.  Byddwn hefyd yn cydweithio'n agos gyda'r Gynghrair Awyr Agored, Cymdeithas Chwaraeon Cymru, ASW a Chyrff Llywodraethu Cenedlaethol i gynnig dehongliadau ac addysg i ein haelodau a sicrhau modd i lefel briodol o weithgareddau diogel barhau. At hyn bydd gofyn inni roi mesurau penodol ar waith i adnabod oes angen rhoi'r gorau i weithgareddau unwaith inni ail-gychwyn a gweithredu'n hyblyg i ganiatáu hyn.

Mae ein prosiect Ehangu ym Mhrydain, sy'n **7 mlynedd o hyd, ar waith ers bron i ddwy flynedd** erbyn hyn. Mae'r prosiect wedi'i ariannu gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol a byddwn yn gweithio yn yr Alban, Lloegr a Gogledd Iwerddon i sefydlu rhaglenni a fyddai'n ysbrydoli mwy o bobl i gymryd rhan mewn gweithgareddau iach yn yr awyr agored yn rheolaidd. Caiff y prosiect ei reoli gan ein Rheolwr Rhaglen newydd a'i gefnogi gan ein Partneriaid Cyflawni, Ymgynghori RPT a Marchnata Aqua.

Rydym eisoes yn gweld enghreifftiau o rannu gwybodaeth ac ymarfer da ledled y pedair gwlad.

# Y GEIRIAU OLAF...



Ein nod ydy sicrhau ein bod yn elusen sy'n gweddu i bawb ac eleni fe gafodd ein hymdrechion eu clodfori drwy inni ennill Achrediad Arian Insport Chwaraeon Anabledd Cymru. Ni ydy'r mudiad Trydydd Sector cyntaf yng Nghymru i ennill yr achrediad. Rydym wrthi'n ddiwyd yn gweithio tuag at ennill y wobr Aur.

# Y CAMAU NESAF...

Hoffwn ddiolch i'n Prif Weithredwr, sy'n gyfrifol dros gynnal ac arwain gwaith strategol a gweithredol y bartneriaeth. Diolch yn fawr iddi hi a'r tîm staff ar ran y Bwrdd am eu gwaith diflino. Bu eleni'n heriol dros ben a bu iddyn nhw brofi eu bod yn dîm anhygoel.

Y flwyddyn nesaf byddwn yn parhau i ganfod cyfleoedd i ddylanwadu'n genedlaethol a rhannu ein profiad gyda rhanbarthau eraill ledled Cymru a Phrydain. Hyn i gyd heb inni golli momentwm a lleihau effaith ein gwaith yng Ngogledd Cymru. Bu i'r pandemig ddysgu pob un ohonom pa mor bwysig ydy hi i'n cymunedau allu manteisio ar yr awyr agored, pwysigrwydd natur a'r amgylchedd naturiol. Bu inni gyd ddysgu hefyd buasai pob un ohonom yn elwa o gymorth ar sut i fanteisio ar yr awyr agored yn gall, yn ddiogel ac mewn ffordd gynaliadwy.



**Gyda diolch o galon i ein haelodau, gwirfoddolwyr, cyfarwyddwr ac ein tîm staff am ein holl lwyddiant.**

**DIOLCH YN FAWR - THANK YOU**